COD YMARFER AR WEITHREDIAD UNDEB Y MYFYRWYR

Diwygiwyd Ionawr 2013

PRIFYSGOL DE CYMRU C A U
UNIVERSITY OF SOUTH WALES H E C

DEDDF ADDYSG 1994: COD YMARFER AR WEITHREDIAD UNDEB Y MYFYRWYR

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Addysg 1994 yn gosod cyfrifoldebau ar Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol i sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd ac yn atebol am ei gyllid. Mae adran 22 o'r Ddeddf yn nodi'r gofynion penodol y mae'n rhaid eu bodloni, gan gynnwys cynhyrchu Cod Ymarfer sydd i fod ar gael yn flynyddol i bob myfyriwr. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio Cod Ymarfer o'r fath. (D.S. Mae'r adrannau mewn print trwm yn cynrychioli crynodeb o'r adrannau penodedig o'r Ddeddf.)

2. Cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr - Adran 22(2)(a) a (b)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Undeb y Myfyrwyr gael cyfansoddiad ysgrifenedig a gymeradwyir gan Fwrdd y Llywodraethwyr a'i adolygu gan Fwrdd y Llywodraethwyr o leiaf bob pum mlynedd.

Bydd gan Undeb y Myfyrwyr Gyfansoddiad ysgrifenedig a gymeradwyir gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y Cyfansoddiad yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan Fwrdd y Llywodraethwyr, a hynny o fewn cyfnodau o ddim mwy na phum mlynedd.

3. Hawl i beidio â bod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr - Adran 22(2)(c))

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr gael yr hawl i beidio â bod yn aelod o'r Undeb ac na ddylai myfyrwyr sy'n arfer yr hawl honno fod o dan anfantais annheg o ran darparu gwasanaethau, neu mewn ffyrdd eraill, o ganlyniad i arfer yr hawl honno.

Gall unrhyw fyfyriwr arfer ei hawl i beidio â bod yn aelod o'r Undeb drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gofrestrydd Academaidd y Brifysgol. Unwaith y bydd yr hawl hon wedi'i harfer, bydd yn parhau mewn grym tra bydd y myfyriwr yn parhau i fod wedi cofrestru ar ei gwrs (oni bai ei fod yn cael ei ddileu'n ffurfiol yn ysgrifenedig). Bydd myfyrwyr sy'n arfer yr hawl hon yn derbyn dogfen adnabod, a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio holl wasanaethau'r Undeb fel y cytunwyd rhwng yr Undeb a'r Brifysgol, ond ni fyddant yn gallu cymryd rhan ym mhrosesau democrataidd a gwneud penderfyniadau'r Undeb, gan gynnwys ei glybiau a chymdeithasau.

4. Etholiadau'r Undeb - Adran 22(2)(d), (e) a (f)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol y dylid penodi prif swyddogion yr Undeb drwy etholiad mewn pleidlais gudd lle mae gan bob aelod hawl i bleidleisio. Rhaid i Fwrdd y Llywodraethwyr fodloni ei hun bod yr etholiadau'n cael eu cynnal yn briodol, ac ni chaiff neb ddal swydd sabothol yn yr Undeb am fwy na dwy flynedd.

Bydd yn ofynnol i Gyfansoddiad yr Undeb fodloni'r holl ofynion hyn. Rhaid i Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr gymeradwyo penodiad y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau. Bydd y Swyddog Canlyniadau naill ai'n Ymddiriedolwr Allanol neu'n Ymddiriedolwr Alumni Undeb y Myfyrwyr, a bydd Cyngor Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cytuno ar ei benodiad. 3 Diwygiwyd Ionawr 2013

5. Cyllid - Adran 22(2)(g) a (h)

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod materion ariannol yr Undeb yn cael eu cynnal yn briodol a bod Bwrdd y Llywodraethwyr yn cymeradwyo cyllideb yr Undeb ac yn monitro ei wariant. Rhaid cyhoeddi adroddiadau ariannol, o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod ar gael i Fwrdd y Llywodraethwyr a phob myfyriwr. Rhaid iddynt gynnwys manylion unrhyw rodd i sefydliadau allanol.

Bydd yn ofynnol i Gyfansoddiad yr Undeb wneud darpariaeth ar i gynnal ei faterion ariannol mewn modd priodol. Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cymeradwyo cyllideb yr Undeb ar gyfer pob blwyddyn ymlaen llaw, ac yn monitro ei wariant trwy dderbyn adroddiadau ariannol yn cymharu incwm a gwariant gwirioneddol gydag incwm a gwariant a gyllidebwyd a mantolen atodol am y chwe mis hyd at 31 Ionawr a'r deuddeg mis hyd at 31 Gorffennaf ym mhob blwyddyn ariannol. Bydd adroddiadau ariannol blynyddol yr Undeb yn cael eu cyhoeddi a byddant ar gael i fyfyrwyr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac i Fwrdd y Llywodraethwyr. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys manylion unrhyw roddion i sefydliadau allanol.

6. Dyrannu adnoddau i Glybiau a Chymdeithasau - Adran 22(2)(l)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod y weithdrefn ar gyfer dyrannu adnoddau i glybiau a chymdeithasau yn cael ei nodi'n ysgrifenedig ac yn hygyrch i fyfyrwyr.

Bydd Cyfansoddiad yr Undeb neu ei Reolau Sefydlog/llawlyfr Clybiau a Chymdeithasau yn cynnwys manylion gweithdrefnau o'r fath.

7. Ymgysylltiadau â Sefydliadau Allanol - Adran 22(2)(j), (k) a (l)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau gan yr Undeb ar gysylltiadau â sefydliadau allanol, gan gynnwys manylion unrhyw daliadau a wneir, gael eu cyhoeddi a bod hysbysiad o benderfyniadau o'r fath ar gael i Fwrdd y Llywodraethwyr a'r holl fyfyrwyr. Rhaid cyhoeddi rhestr o'r holl gysylltiadau, gan gynnwys manylion taliadau, o leiaf unwaith y flwyddyn, a rhaid adolygu'r rhain o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhaid cael trefniadau lle na all mwy na 5 y cant o aelodau ofyn am bleidlais gudd ar y cwestiwn o ymlyniad parhaus i unrhyw sefydliad penodol.

Bydd penderfyniadau ar gysylltiadau â sefydliadau allanol yn cael eu cofnodi yng Nghofnodion Cyfarfodydd Cyffredinol yr Undeb a byddant ar gael ar-lein i fyfyrwyr ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Bydd y penderfyniadau'n cael eu hadrodd gan yr Undeb i Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr i'w hadrodd i'r Bwrdd.

Bydd yr Undeb yn adolygu pob cysylltiad yn flynyddol yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd cofnodion y cyfarfod hwnnw'n cynnwys rhestr o'r holl gysylltiadau a gymeradwywyd, gan gynnwys manylion taliadau, a byddant ar gael ar-lein i fyfyrwyr ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Bydd yr un manylion yn cael eu hadrodd gan yr Undeb i Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr i'w hadrodd i'r Bwrdd.

Bydd Cyfansoddiad yr Undeb yn darparu ar gyfer galw refferendwm ar unrhyw fater, gan gynnwys cysylltiad parhaus ag unrhyw sefydliad drwy:

i) Penderfyniad Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr; neu
ii) Pleidlais fwyafrifol o Gyngor y Myfyrwyr; neu
iii) Deiseb ddiogel wedi'i llofnodi gan o leiaf 100 o Aelodau 4 Diwygiwyd Ionawr 2013

8. Gweithdrefn Gwynion - Adran 22(2)(m) a (n)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod gweithdrefn gwynion ar gael i fyfyrwyr pan fyddant yn anfodlon yn eu hymwneud â'r Undeb neu pan fyddant yn credu eu bod o dan anfantais annheg drwy arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o'r Undeb. Dylai'r weithdrefn gwynion ddarparu ar gyfer person annibynnol a benodir gan Fwrdd y Llywodraethwyr i ymchwilio ac adrodd ar gwynion. Dylid ymdrin â chwynion yn brydlon ac yn deg, a lle caiff cwyn ei chadarnhau, dylai fod ateb effeithiol.

Bydd myfyrwyr sy'n anfodlon yn eu hymwneud â'r Undeb yn cael y cyfle i godi eu cwyn i'r Undeb yn y lle cyntaf trwy weithdrefnau sy'n gynwysedig yn Rheolau Sefydlog yr Undeb. Bydd gan y rhai sy'n methu â chael canlyniad boddhaol drwy'r Undeb, neu sy'n honni eu bod dan anfantais o ganlyniad i arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o'r Undeb, hawl i apelio i'r Is-Ganghellor yn unol â Gweithdrefn Gwynion y Brifysgol i Fyfyrwyr. Os byddant yn methu â chael canlyniad boddhaol trwy'r gweithdrefnau hyn, gallant apelio i Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, a fydd yn penodi person annibynnol i ymchwilio i'r gŵyn. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad gan y person annibynnol hwnnw ac yn penderfynu pa ateb, os o gwbl, sy'n briodol.